

Amser yn brin i arbed y Ddaear – ond y 'gwadwyr' sy'n cael y sylw

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn trafod adroddiad pellach gan y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd sy'n dangos bod gweithgareddau dynol yn peryglu bywyd ar ein planed ...

ROEDDWN ar dipyn o wyliau ar ddydd Llun olaf mis Mawrth pan gyhoeddwyd adroddiad y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd ar effeithiau newid hinsawdd ar bobloedd y byd [IPCC - *Climate Change 2014: Impacts, Adaptation, and Vulnerability*].

Cafwyd adroddiad swmpus ac awdurdodol ar y wyddoniaeth eisoes. Bach iawn o sylw a rhoddwyd iddo yn y wasg ac ar y teledu, hyd y gwelaf.

Yn anffodus, dydi 'newid hinsawdd' na 'cynhesu byd eang' ddim yn 'newyddion' - fel ffwlbrï ein gwleidyddion neu gampau ein pêldroedwyr ac athletwyr. Gwaeth fyth mae'r 'gwadwyr' wedi llwyddo i godi amheuan di-sail ac i gymylu'r dyfroedd nes bod llawer yn teimlo bod amheuan teilwng yn bodoli.

Yn anffodus - dydi hyn ddim yn wir! Mae'r ffiseg a'r cemeg yn gwbl glir - mae'n gweithgareddau dynol yn newid hinsawdd ein planed. Hyn ar ben ein holl broblemau eraill megis tlodi, anghyfartaledd dybryd, rhyfeloedd a'r twf rhyfeddol yn ein poblogaeth.

Edrychais ar yr adroddiad ar y we ar ôl dod adref ac mae'n cadarnhau fy ngofidiau ac yn sobri dyn. Mae'r prif benawdau yn sôn am y bygythiadau i'n cyflenwadau bwyd, yn arbennig i'r rhai sydd eisoes yn dlawd a newynog, ac i ffynonellau dŵr ffres, i golledion ein bioamrywiaeth ac i asideiddio ein cefnforoedd, i'r tebygrwydd o dywydd mwy eithafol, gan gynnwys llifogydd yn deillio o law trwm ac o stormydd enbyd. Ac, wrth gwrs, o godiad yn lefel y môr a gwres.

YMATEB DI-HID, BRAWYCHUS, Y BBC

Disgwylir i rai ynnysoedd a thiroedd ddiflannu fel 'Clychau Cantre'r Gwaelod o'r golwg dan y dŵr' erbyn diwedd y ganrif. Bydd hyn oll yn miniogi'r gystadleuaeth am adnoddau, yn bygwth heddwch ac yn gwaethygu tensiynau rhwng pobloedd a gwledydd.

Prin fod hyn yn newydd a cheisiais argyhoeddi darllenwyr **Golwg** o'r sefyllfa. Trist yw gweld y camddegongli arferol yn rhai o'r papurau, gan amlaf o'r adain dde, a gwelir yr holl beth fel cynllwyn i lyffetheirio cyfalafiaeth.

Yn fwy brawychus yw ymateb di-hid y BBC. Tan yn ddiweddar, gyfrifwyd y BBC ymysg ein ffynonellau mwyaf diduedd a dibynadwy. Ond digalon yw nodi geiriau David Jordan, Golygydd Polisi, yn ei dystiolaeth amwys i Bwyllgor yn San Steffan ar newid hinsawdd, *'if that is what is happening'*. A'i bwyslais ar *'journalistic values'*, nid cywirdeb gwyddonol - sy'n caniatáu'r un amser i ragfarnau ac i'r ffeithiau gorau gwyddonol o fewn ein gfael.

Fel dynoliaeth, rydym wedi ein 'weirio' i greu pictiwr derbyniol o'r byd, i wneud y gorau o'n sefyllfa, i beidio â gofidio gormod am yfory ac i fachu ar bob cyfle i wella ein hunain.

CYD-WESTEION AR Y BLANED DDAEAR

Ers oes Thatcher a Reagan, cyfyd y slogan *'greed is good'*. Yn anffodus, mae'r tueddiadau hyn yn groes i'r hyn a ofynnir er mwyn ymateb i sialens newid hinsawdd a chynhesu byd eang.

Rhaid edrych i'r dyfodol, cynllunio ar gyfer newidiadau na ellir eu rhagfynegi yn fanwl yn lleol. Rhaid derbyn bod adweithiau carlamus yn fygythiad, a bod newidiadau ar droed na welir eu diwedd am ganrifoedd.

Rhaid cyd-warchod adnoddau cyffredin. Rhaid sylweddoli ein bod yn gyd-westeion ar Blaned y Ddaear - yn ddu a gwyn, yn gyfoethog a thlawd, yn eiddil ac yn iach. Ni thâl i ni a'n harweinwyr, na'r 1% tra-cyfoethog sy'n rheoli cymaint, dwyllo'n hunain ac anghofio hyn.

Mae'r amser yn brin. Dros y Pasg gofynnaf i bawb astudio ffawd trigolion Ynys y Pasg!



Ein Ddaear brydferth a bregus o bellter o filiwn o filltiroedd. LLUN: NASA, Gorffennaf 2015.